



Adroddiad Arolygu

Cylch Meithrin Pili Pala

**Clwb Rygbi Rhymni
Hartland Road Llanrhymni
Caerdydd
CF3 4JL**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/10/2022

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cylch Meithrin Pili Pala

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	Cylch Meithrin Pili Pala
Lleoedd cofrestredig	19
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Nodi â Llaw 8 Rhagfyr 2021
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nodi â Llaw Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Adroddiad Cymraeg heb ei gyhoeddi

<u>Llesiant</u>	Digonol
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Digonol
<u>Yr Amgylchedd</u>	Digonol
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Digonol

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae gan y plant gydberthnasau cadarn â'i gilydd ac â'r staff gofal. Mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn ac maent yn mynegi mwynhad yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Maent yn meithrin sgiliau annibyniaeth da drwy brofiadau dysgu o dan arweiniad y plentyn.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn dangos dealltwriaeth a pharch. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gweithgareddau ystyrion a diddorol. Mae'r staff gofal yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi arferion a pholisïau addas ar waith, a'r rhan fwyaf o weithdrefnau.

Mae'r safle yn ddiogel. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu mewn ffordd addas ac mae'n cynnwys digon o adnoddau y tu mewn. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth amlddiwylliannol. Mae asesiadau risg cyffredinol ar waith ond ni chaiff pob perygl posibl ei nodi. Mae angen rhoi sylw ar unwaith i'r gofynion rheoleiddiol mewn perthynas â pheryglon a diogelwch. O ganlyniad, nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio yn y maes hwn, ac rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Mae meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth yn anghyson, ac mae angen rhoi sylw i rai gofynion rheoleiddiol. Mae'r rhain yn ymwneud â chadw cofnodion yn y lleoliad. O ganlyniad, mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r person â chyfrifoldeb sydd newydd ei benodi yn dechrau gwneud gwelliannau ac mae'r tîm yn cydweithio'n dda. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda ac maent yn canmol y gofal y mae eu plant yn ei gael.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad da o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, gwnaethant gyrraedd yn hapus, gan wenu a mynd yn syth at eu gweithgareddau yn un o'r ardaloedd chwarae. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'i gilydd ac â'r staff gofal, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn awyddus i weld y staff gofal ac yn gwenu'n hapus wrth weld a chyfarfarch eu ffrindiau.

Mae llawer o'r plant yn ymdrechu i weithio'n dda gydag eraill ac yn deall weithiau bod angen iddynt aros eu tro. Er enghraifft, arhosodd y plant eu tro cyn eistedd ar y mat yn ystod sesiwn grŵp ar y carped. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau, er enghraifft, wrth dacluso'r paent ar adnoddau chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin dealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir drwy gydymffurfio â rheolau pan fyddant yn defnyddio cyfarpar a all effeithio ar eu diogelwch.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, cafodd y plant lawer o hwyl yn chwarae rôl mewn siop. Treuliodd eraill gryn dipyn o amser yn y 'siop trin gwallt' yn chwarae rôl cwsmer a'r person trin gwallt. Yn ystod y cyfnod hwn, fe'u clywsom yn datblygu geirfa a deialog ystyrion. Mae'r plant yn defnyddio sgiliau datrys problemau wrth chwarae'n rhydd ac fe'u gwelsom yn dyfalbarhau er mwyn adeiladu tŵr yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb â chyffro a chwilfrydedd wrth chwarae yn yr amrywiol ardaloedd.

Mae bron pob plentyn yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall, yn llawn cyffro, ac yn dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, mae un plentyn yn dewis llyfr, yn mynd i eistedd yn yr ardal dawel cyn troi'r tudalennau a dilyn y stori yn annibynnol. Maent yn awyddus i ymuno ac i gyfrannu yn ystod amser cylch ac yn falch o'u cyflawniadau. Mae llawer o'r plant yn gwisgo ffedog i baentio ac yn gwisgo eu cot cyn mynd allan. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae'r staff gofal yn rhoi rhywfaint o sylw i iechyd a diogelwch y plant. Mae gweithdrefnau digonol ar waith ganddynt, ac maent yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r polisiâu. Mae'r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r gweithdrefnau er mwyn atal heintiau rhag lledaenu. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn diheintio ardaloedd bwyta ac yn golchi eu dwylo'n rheolaidd. Nid ydynt yn dilyn polisiâu a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau yn llawn mewn perthynas â chadw cofnodion. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi cael hyfforddiant perthnasol ym maes amddiffyn plant yn ddiweddar ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd unrhyw bryderon am y plant. Mae'r staff gofal yn llwyddo i annog y plant i fwyta'n iach ac i gadw'n heini. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant ymarfer conf yn ddyddiol.

Mae gan y staff gofal gydberthynas agos a chynnes â'r plant, ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn dilyn y 'polisi hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol' ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy achub ar bob cyfle i ganmol y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cael eu hannog a'u canmol yn barhaus am geisio gwisgo eu hunain. Caiff y plant eu hannog i fod yn gwrtais drwy ddweud 'diolch' yn ystod amseroedd bwyd. Mae'r staff gofal yn deall sut i atal teimladau o rwystredigaeth a gwrthdaro. Er enghraifft, drwy ddod i lawr i lefel y plentyn wrth siarad, modelu ar gyfer y plant drwy drafod a defnyddio ymadroddion fel *"Cofia, dwylo caredig"* (*Remember, kind hands*) a *"Dyma sut i ni'n bod yn garedig"* (*This is how we are kind*).

Mae gan y staff gofal wybodaeth dda am ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae ac maent yn meddu ar gymwysterau gofal plant perthnasol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas er mwyn meithrin amrywiaeth o sgiliau ac maent yn rhoi cymorth da i'r plant wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, wrth i'r plant baentio, gofynnodd aelod o'r staff i'r plentyn am y lliwiau a'r siapiau. Mae'r staff yn cael cymorth sylweddol gan gynghorwyr Dechrau'n Deg ac yn ymateb yn dda i'w mewnbwn. Mae hyn wedi helpu'r staff gofal i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau newydd a chyffrous i'r plant. Maent yn cynnwys gweithgareddau ymchwil, adeiladu, byd bach ac ardaloedd creadigol. Mae'r staff gofal yn gwerthuso'r ardaloedd yn gyson er mwyn eu gwella a sicrhau dilyniant yn y sgiliau a gaiff eu meithrin. Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. O ganlyniad, maent yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae system gweithwyr allweddol ar waith i asesu ac olrhain cynnydd y plant. Fodd bynnag, ni chaiff pob polisi ei ddilyn yn gyson o ran sicrhau bod y gweithiwr allweddol yn hysbysu'r rhieni am arferion dyddiol eu plant. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o gefndiroedd diwylliannol ac amrywiol draddodiadau. Er enghraifft, maent yn dysgu am Diwalu a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y safle yn ddiogel drwy gloi'r drysau allanol. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael. Mae'r staff gofal hefyd yn lofnodi i mewn ac allan o'r adeilad, ond nid ydynt yn cofnodi egwyliau. Caiff gwiriadau dyddiol eu cwblhau er mwyn lleihau'r risgiau a nodwyd mewn asesiadau risg. Mae'r asesiadau risg ar gyfer yr adeilad yn darparu gwybodaeth sylfaenol ac yn nodi rhai risgiau posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwbl effeithiol gan nad ydynt wedi cael eu hadolygu'n fanwl ac nad ydynt yn nodi rhai risgiau. Er enghraifft, cafodd dwy ddamwain eu cofnodi a oedd yn ymwneud â rheiddiaduron a phibellau heb eu gorchuddio ac nid yw'r asesiadau risg yn nodi'r risgiau hyn. Mae tystysgrif diogelwch nwy ddilys ar gael. Nid yw'r tystysgrifau diogelwch a ddarparwyd ar gyfer y cyfarpar tân cludadwy a'r gwiriad trydanol yn ddilys. Nid oedd gwiriadau larwm tân na phrofion dyfeisiau cludadwy (PAT) sy'n rhan o asesiadau risg yr adeilad ar gael. Ni all Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod yn sicr bod y tîm arweinyddiaeth yn cwblhau ac yn adolygu'r gwiriadau diogelwch perthnasol mewn ffordd amserol. Gallai hyn gael effaith ar ddiogelwch a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.

Mae'r lleoliad mewn neuadd clwb rygbi fawr sy'n cynnig digon o le. Mae'r staff gofal yn trefnu gwahanol ardaloedd er mwyn i'r plant ddysgu a datblygu. Mae'r plant yn bwyta eu cinio mewn neuadd ar wahân. Ceir toiledau a sînclau maint oedolyn; darperir cyfarpar i alluogi'r plant i'w defnyddio'n briodol. Er enghraifft, mae gris fach i'r plant olchi eu dwylo'n annibynnol. Mae'r cyfleusterau newid yn lân ac yn addas ar gyfer oedran y plant, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas iddynt hefyd. Mae'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yn ddigonol. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd mor addas â phosibl i'r plant. Maent yn defnyddio llenni, ffabrigau a matiau er mwyn helpu i greu ardaloedd croesawgar i'r plant. Defnyddir rhannwr i gyfyngu ar fynediad i'r llwyfan a'r ardal storio y gellir cael mynediad iddi drwy gât ddiogelwch. Gan fod yn rhaid i'r lleoliad wagio'r adeilad bob penwythnos, caiff yr holl adnoddau eu pacio o'r golwg ac nid oes unrhyw arddangosfeydd parhaol o waith y plant. Caiff gwaith a lluniau'r plant eu harddangos ar gefn dodrefn a'u hongian ar liny. O ganlyniad, mae amgylchedd y prif neuadd yn groesawgar i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes ardal awyr agored y gall y plant fynd iddi ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae'r staff gofal yn sicrhau cyfleoedd i'r plant dreulio amser yn yr awyr agored drwy ddefnyddio caeau cyfagos yn yr ardal gerllaw. Yn ystod y cyfnodau hyn, caiff blychau o adnoddau eu defnyddio sydd wedi'u trefnu'n benodol ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Mae'r staff gofal yn darparu ardaloedd chwarae ysgogol yn y brif neuadd ac yn sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd i'r plant. Er enghraifft, mae adnoddau i'r plant yn yr ardal

adeiladu a gaiff eu storio mewn blychau ar y llawr ac mae silffoedd llyfrau lefel isel er mwyn storio llyfrau. Mae hyn yn datblygu annibyniaeth y plant yn dda. Mae cyfleoedd buddiol i feithrin sgiliau echddygol manwl drwy ddefnyddio adnoddau go iawn a chyfarpar gwneud marciau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Digonol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn anghyson. Mae'r person â chyfrifoldeb sydd newydd ei benodi yn ymarferydd profiadol ac yn setlo i mewn i'w rôl arweinyddiaeth newydd yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r broses sefydlu ar gyfer y person â chyfrifoldeb na'r broses ar gyfer monitro'r rôl hon wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion. Mae hyn am nad oes cofnodion rhoi meddyginiaeth ar gael. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant wedi cael meddyginiaethau yn y gorffennol a'u bod wedi llenwi ffurflen ganiatâd. Nid oes unrhyw weithdrefn ar gyfer cofnodi anafiadau sydd eisoes wedi digwydd i'r plant. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi ond ni chaiff rhai ohonynt eu cofnodi'n gywir ac mae gwybodaeth ar goll. Ni chaiff cofnodion damweiniau a digwyddiadau eu hadolygu er mwyn cymryd y camau angenrheidiol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau. Mae'r arweinwyr yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau hysbysadwy ond nid ydynt yn gwneud hynny'n gyson o fewn y terfynau amser gofynnol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn briodol. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y cyfarfodydd hyn yn gyson ac mae lleiafrif o'r staff o'r farn na fu'r broses bob amser yn werthfawr. Mae'r staff yn gadarnhaol iawn am y dyfodol ac yn teimlo'n hyderus bod y person â chyfrifoldeb sydd newydd ei benodi yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu cefnogi yn eu rôl. Yn ystod cyfnod byr o amser, mae wedi llwyddo i feithrin ysbryd tîm cadarn ac i weithio'n dda iawn fel rhan o'r tîm hwnnw. Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym eu bod yn hapus wrth eu gwaith a'u bod bellach yn teimlo ymdeimlad o ysbryd tîm. Mae'r staff gofal yn hyderus ac yn amlwg yn frwdfrydig am eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn gweithio er mwyn ennill mwy o gymwysterau i ddatblygu eu rolau. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol gan gynnwys hyfforddiant diogelu diweddar. Mae'r hyfforddiant hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar systemau diogelu'r lleoliad.

Mae proses hunanwerthuso a gwella ar waith yn y lleoliad. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn fyfyrion ac yn nodi meysydd o gryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu gan ystyried safbwyntiau'r rhieni. Caiff y ddogfen hon ei rhannu â'r rhieni, AGC ac asiantaethau eraill; fodd bynnag, nid yw ar gael yn Gymraeg. Mae'r arweinwyr a'r staff gofal yn cael cymorth a chynngor buddiol gan weithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r cymorth hwn, yn cynnal hunanwerthusiad ac yn llunio cynllun gweithredu. Fodd

bynag, nid yw'r broses hon wedi'i datblygu'n llawn gan nad oes tystiolaeth bob amser ar gael ar gyfer camau gweithredu ac nid yw'r tîm arweinyddiaeth yn ei monitro'n gyson.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad ac yn gadarnhaol iawn am y staff gofal a'r cymorth y mae eu plant yn ei gael. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu am ddatblygiad a chynnydd eu plant. Mae'r staff gofal yn rhannu gwybodaeth drwy ap breifat ac mae'r rhieni yn mynychu nosweithiau rhieni. Fodd bynnag, nid oeddent yn glir a oedd gan eu plentyn weithiwr allweddol ar hyn o bryd. Dywedodd llawer o'r rhieni wrthym eu bod o'r farn bod y staff wedi diwallu anghenion unigol eu plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- A1. Sicrhau y caiff y system gweithwyr allweddol ei dilyn yn gyson.
- A2. Sicrhau bod cofrestrau'r staff gofal yn cofnodi egwylliau.
- A3. Sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn goruchwyllo'r lleoliad yn gadarn ac yn helpu'r person â chyfrifoldeb i gyflawni gofynion ei rôl.
- A4. Gwella ansawdd y trefniadau goruchwyllo ac arfarnu a sicrhau bod proses sefydlu gadarn ar waith ar gyfer y person newydd â chyfrifoldeb.
- A5. Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
25	Methodd yr unigolyn cyfrifol â chynnal asesiadau risg cadarn ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac nid yw'n nodi pob risg i'r plant yn effeithiol. Methodd â sicrhau bod pob gwiriad diogelwch, y mae llawer ohonynt wedi'u nodi yn yr asesiadau risg ar gyfer yr amgylchedd, wedi'i gwblhau a'i wirio mewn modd amserol. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r amgylchedd yn cynnwys risgiau y gellir eu hosgoi ac i sicrhau bod yr holl wiriadau diogelwch ar waith. Rhaid i'r unigolyn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r risgiau i'r plant yn effeithiol a bod camau gweithredu prydlon yn cael eu cymryd lle bo angen.	Newydd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
30	Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ar gyfer damweiniau, digwyddiadau, anafiadau sydd wedi digwydd yn barod a meddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Rhaid i'r unigolyn sicrhau y caiff cofnodion cywir eu cadw'n gyson.	Newydd

Adroddiad terfynol heb
gyhoeddi

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar llesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gofodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Dyddiad Cyhoeddi Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete